

PWYLLGOR CRAFFU ADNODDAU

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2026.

Mae agenda'r Pwyllgor ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Y Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, E.J. Goodjohn, E. Goodjohn, Dr. I.J. Johnson, S. Lloyd-Selby, B. Loveluck-Edwards, J.M. Norman a N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd I. Buckley, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

Gellir gweld cynnwys pob eitem ar yr agenda drwy'r hypergysylltiadau yn nheitolau'r eitemau agenda isod.

60 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

61 [PENODI IS-GADEIRYDD](#) –

PENDERFYNWYD – Y Cynghorydd E. Goodjohn yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

62 [YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB](#) –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd S. Campbell.

63 [DATGANIADAU BUDDIANT](#) –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

64 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2026 fel cofnod cywir.

65 STRATEGAETH POBL 2026 - 2030 (CYF) –

Cyflwynodd Pennaeth Adnoddau Dynol yr adroddiad, gan hysbysu'r Pwyllgor fod y Strategaeth wedi'i hadnewyddu am sawl rheswm, gan gynnwys cyd-fynd â Bro 2030 a'r Rhaglen Ail-lunio, canfyddiadau Asesiad y Panel Perfformiad, adolygiad thematig Archwilio Cymru a dadansoddiad ystadegol economaidd wedi'i ddiweddarau.

Mynegasant fod cryn dipyn o ymgynghori wedi bod ag amrywiaeth o staff ar draws y Cyngor, gyda'r adborth yn gadarnhaol ar y cyfan, a bod gwaith wedi'i wneud gydag Ysgolion i'w cynnwys ymhellach yn y Strategaeth hon. Nodasant fod y Strategaeth yn cynnwys pedwar prif golofn; bod yn addas ar gyfer y dyfodol, lle gwyh i weithio, gwneud gwahaniaeth ac arweinyddiaeth, a bod yr adroddiad yn cynnwys cynllun, camau gweithredu a nodwyd a chanfyddiadau ymgynghori.

Yn dilyn trafodaeth am yr eitem, y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid nodi cynnwys Strategaeth Pobl 2026 (Atodiad Un) fel fframwaith strategol y Cyngor ar gyfer datblygu'r gweithlu a'r sefydliad a'r Cynllun Gweithredu ategol (Atodiad Dau) ar sut y byddai'r strategaeth yn cael ei chyflawni.

(2) Y dylai'r Pwyllgor Craffu Adnoddau dderbyn diweddariad blynyddol ar y cynnydd a wnaed fel rhan o'r adroddiadau perfformiad rheolaidd ac mewn adroddiadau annibynnol yn ôl yr angen.

(3) Y dylid gwahodd pob Aelod i sesiwn frifio i godi ymwybyddiaeth o waith Rhwydweithiau Staff y Cyngor.

(4) Y dylid rhannu deunydd hyfforddi sy'n ymwneud â gwrth-hilioldeb a Chynllun Gweithredu Gwrth-Hilioldeb Cymru gydag Aelodau'r Pwyllgor Craffu Adnoddau.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn rhoi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd a wneir.

(3&4) Er gwybodaeth i'r Aelodau.

66 [ADRODDIAD ABSENOLDEB SALWCH CH4 2025/2026](#) (CYF) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Cyflogeion yr adroddiad a rhoddodd drosolwg o absenoldeb salwch yn ystod y cyfnod gan gynnwys:

- Y ffigur alldro terfynol, sef 10.15 diwrnod cyfwerth ag amser llawn a gollwyd, oedd yr un fath â'r flwyddyn flaenorol ac yn is na'r ffigur targed o 10.75 o ddiwrnodau cyfwerth ag amser llawn;
- Roedd absenoldeb hirdymor yn parhau i fod yn her er gwaetha'r ffaith ei fod wedi lleihau, a bod y Cyngor yn parhau i gynnig cefnogaeth trwy fentrau Lles fel iechyd galwedigaethol i gefnogi staff;
- Cyfarwyddiaethau yr Amgylchedd a Thai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol oedd â'r cyfraddau absenoldeb uchaf yn y Cyngor ond roeddent wedi gostwng o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol ac roeddent yn is na'u targed;
- Prif achos pob absenoldeb oedd heintiau (15%) a straen nad oedd yn gysylltiedig â gwaith (12.1%);
- Roedd dangosfyrddau wedi cael eu datblygu a'u rhannu i gefnogi rheolwyr a Phartneriaid Busnes Adnoddau Dynol i reoli absenoldebau;
- Y Cyngor oedd â'r drydedd gyfradd salwch isaf o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru.

Yn dilyn trafodaeth ar yr eitem, y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

(1) BOD yr adroddiad a'r ffigurau absenoldeb salwch o Ebrill 2025 i Fawrth 2026 a ddarperir yn Atodiad A yn cael eu nodi.

(2) BOD fersiynau yn y dyfodol o'r adroddiad yn cynnwys nodiadau esboniadol lle bu newidiadau sefydliadol canol blwyddyn sy'n effeithio ar y wybodaeth a ddarparwyd.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn eglurder wrth symud ymlaen.

67 [HAF 2026 – DIWEDDARIAD AR GYSYLLTIADAU CWSMERIAID](#) (CAC) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Digidol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar drefniadau cyswllt cwsmeriaid y Cyngor, y pwysau gweithredol sy'n wynebu'r Ganolfan Gyswllt ar hyn o bryd, a'r cyfeiriad strategol ar gyfer cam nesaf y trawsnewidiad drwy'r rhaglen wella "95 mewn 5" sy'n cyd-fynd â'r Rhaglen Ail-lunio. Rhoddasant drosolwg o sut roedd y Gwasanaeth yn gweithio ar draws y Cyngor i gefnogi meysydd gwasanaeth fel galluogwr mewn amrywiaeth o fentrau i gefnogi sut roedd trigolion yn cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor a gwella eu profiadau defnyddwyr.

Yn dilyn trafodaeth am yr eitem, y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Contact OneVale a bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad diweddarau pellach ym mis Mawrth 2027.

(2) Y dylid darparu gwybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau ynghylch nifer y ceisiadau a'r amseroedd trin yn yr adroddiad diweddarau nesaf.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau.

(2) Er gwybodaeth i'r Aelodau.

68 [TREFNIADAU CRAFFU: ADOLYGIAD A CHYMERADWYAETH BLWYDDYN GYNTAF O'R RHAGLEN WAITH YMLAEN 2026/27](#) (CAC) –

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Democrataidd, yn myfyrio ar weithgarwch y Pwyllgor yn ystod blwyddyn ddinesig 2025/26, gan nodi cwblhau'r flwyddyn lawn gyntaf o dan drefniadau craffu diwygiedig y Cyngor a gyflwynwyd fel rhan o'r Rhaglen Ail-lunio. Crynhodd sut roedd y Pwyllgor wedi gweithredu o fewn y fframwaith newydd, tynnodd sylw at feysydd gwaith allweddol a wnaed a nododd wersi sy'n dod i'r amlwg i helpu i lywio arferion craffu yn y dyfodol.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor hefyd ystyried a chytuno ar ei Raglen Waith Ymlaen arfaethedig ar gyfer blwyddyn ddinesig 2026/27 ac aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen sydd ar ddod a fyddai'n edrych ar gyswllt â phreswylwyr a C1V.

Awgrymwyd, codwyd ac ymdriniwyd â nifer o welliannau ac ymholiadau ynghylch yr adroddiad a'r Raglen Waith Ymlaen ar gyfer blwyddyn ddinesig 2026/27.

Yn dilyn trafodaeth ar yr eitem, y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

(1) Y BOD y Rhaglen Waith Ymlaen a atodwyd i'r adroddiad yn cael ei chytuno, yn amodol ar yr ychwanegiadau canlynol a godwyd gan yr Aelodau yn y cyfarfod:

- a. Arbedion caffael o Ysgolion – Medi 2026;
- b. Diweddariad Cynnydd Landlordiaid Corfforaethol – Tachwedd 2026;
- c. Diweddariad Strategaeth Pobl - Mawrth 2027;
- ch. Diweddariad Cysylltiadau Cwsmeriaid - Mawrth 2027.

(2) Y BOD y Rhaglen Waith Ymlaen a gytunwyd ac a ddiweddarwyd yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor er gwybodaeth i'r cyhoedd.

(3) BOD gweithgaredd Adolygiad Gorchwyl a Gorffen nesaf y Pwyllgor yn canolbwyntio ar welliannau i gyswllt â phreswylwyr a'r gwasanaeth C1V.

(4) BOD aelodaeth yr Adolygiad Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys:

Emma Goodjohn (Cadeirydd)
Samantha Campbell
Ewan Goodjohn
Ian Johnson
Jayne Norman
Joanna Protheroe.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Er mwyn galluogi'r Pwyllgor Craffu i gymeradwyo rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn Ddinesig sydd i ddod a oedd yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Aelodau, yn sicrhau cynllunio ymlaen llaw effeithiol ac yn cefnogi'r Pwyllgor i gyflawni ei rôl graffu.

(2) Er mwyn hyrwyddo agoredrwydd, tryloywder ac ymgysylltiad cyhoeddus drwy roi gwelededd clir i drigolion, rhanddeiliaid a sefydliadau partner o waith arfaethedig y Pwyllgor ar draws y flwyddyn Ddinesig.

(3) Er mwyn sicrhau bod gweithgaredd Gorchwyl a Gorffen yn ffocws, yn hylaw, ac yn gwneud defnydd effeithiol o gapasiti Aelodau a swyddogion, gan ganiatáu craffu amserol ac ystyrlon ar fater blaenoriaeth.

(4) Sefydlu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ffurfiol gydag aelodaeth y cytunwyd arni, gan ddarparu eglurder ar rolau ac atebolrwydd a galluogi'r adolygiad i ddechrau yn unol â rhaglen waith y cytunwyd arni gan y Pwyllgor.